

CYHOEDDIAD – Fframwaith Hoci am Oes Newydd

Mae'n bleser gan Hoci Cymru gyhoeddi lansiad y Fframwaith Hoci am Oes. Pwrpas y ddogfen hon yw darparu crynodeb i chi o'r Fframwaith Hoci am Oes, pam a beth rydym yn ei newid a'ch cyfeirio chi at ragor o wybodaeth.

Y cefndir

Yn ystod y misoedd diwethaf, rydym wedi treulio peth amser yn ymgynghori ag aelodau a rhanddeiliaid y byd Hoci drwy gyfrwng cwmni sydd wedi'i benodi'n annibynnol ac rydym wedi adolygu'r Llwybr Hoci blaenorol, ei fanteision, ei wendidau a'r her y mae wedi'i chreu i'r teulu Hoci.

Un o'r pryderon allweddol y tynnwyd sylw ato yn yr adolygiad oedd diffyg dealltwriaeth o'r llwybr presennol. Tynnodd hyn sylw at y ffaith nad oes dealltwriaeth dda o'r system bresennol ond hefyd mae'n dangos bod angen cyfathrebu'r llwybr newydd yn glir ac yn gydlynol i'r holl aelodau a'r rhanddeiliaid hoci.

Dynododd y mewnbwn gan y gymuned hoci bresennol yng Nghymru bod rhaid i'r fframwaith newydd leihau'r baich ar adnoddau, gan gynnwys y gweithlu, a lleddfu peth o'r pwysau sydd ar chwaraewyr talentog, sy'n cael eu tynnu i sawl cyfeiriad yn aml. Hefyd, rhaid cyfathrebu neges glir ynghylch yr amcanion a'r dull o weithredu, gan sicrhau cysondeb o ran cyflwyno, cynnwys a safonau.

Y Fframwaith Hoci am Oes newydd

Mae'r fframwaith Hoci am Oes yn cynnig athroniaeth, strwythur a gweledigaeth tymor hir gydlynol ar gyfer cyfranogiad hoci ar bob lefel. Mae'r fframwaith holistaidd hwn yn dangos sut gall pawb gymryd rhan mewn Hoci, gan gynnwys chwaraewyr, hyfforddwyr, swyddogion, dyfarnwyr, gwirfoddolwyr, addysgwyr a gweinyddwyr.

Fel gydag unrhyw fframwaith, mae'n rhaid i'r cynllun gyd-fynd yn agos ag amcanion cyffredinol y gamp. Mae amcanion y Fframwaith Hoci am Oes wedi'u nodi isod:

1. Creu fframwaith holistaidd ar gyfer pawb (chwaraewyr, hyfforddwyr, swyddogion, dyfarnwyr, gwirfoddolwyr, addysgwyr a gweinyddwyr) er mwyn cynnwys, ehangu a rhagori mewn Hoci, un system i bawb.
2. Sefydlu a hybu 'Ffordd Gymreig' benodol o chwarae a chyflwyno hoci, gan ddarparu gweledigaeth ar y cyd ar gyfer chwaraewyr, staff a rhieni a sicrhau gwell cysondeb wrth gyflwyno.
3. Creu system y mae'r chwaraewyr yn ganolog iddi, system a sbardunir gan ddatblygiad ac a gefnogir gan gystadleuaeth, system sydd wedi'i chynllunio fel bod talent yn gallu ffynnu. Rhoi blaenoriaeth i Ddatblygu Talent yn hytrach nag Adnabod Talent, gan adlewyrchu natur ddeinamig datblygiad y chwaraewr.
4. Darparu fframwaith datblygu hydredol ar gyfer talent cartref a rhyngwladol.

Mae'r Crynodeb Gweithredol yn darparu mwy o fanylion am yr uchod a hefyd yn dangos y canlynol:

- Model y llwybr chwaraewyr – gweler tudalen 5
- Eglurhad o bob haen – gweler tudalen 6

Felly, beth fydd yn newid?

Mae dogfen o Gwestiynau Cyffredin wedi cael ei llunio i ateb nifer o gwestiynau, ond i grynhoi, dyma beth fydd yn digwydd:

- Bydd dull newydd o weithredu i gefnogi ysgolion Cynradd ac Uwchradd a'u disgyblion, ac i'n clybiau, yn cael ei lansio ym mis Medi 2012. Ei enw fydd '4689 – y llwybr newydd at hoci'.
- Bydd rhaglen newydd i achredu clybiau'n cael ei datblygu er mwyn cefnogi clybiau Hoci'n well ac i sicrhau cynnydd yn unol â phob amgylchedd yn y fframwaith Hoci am Oes, yn addas i'w dyheadau fel clybiau.
- Bydd dau gynnyrch newydd yn cael eu cyflwyno i gefnogi cyfranogiad oedolion mewn hoci – Back2Hockey a Rush Hockey. Bydd rhagor o fanylion am y rhain ar gael yn yr hydref.
- Gwneir gwell cyswllt â phartneriaid Addysg Bellach ac Uwch er mwyn cefnogi'r gwaith o gyflwyno'r fframwaith newydd.
- Bydd yr Acadëmiau Rhanbarthol a'r Canolfannau Datblygu Perfformiad yn dod i ben ac yn eu lle daw Canolfannau Hoci 360° o fis Medi 2012 ymlaen (Haen 2). Bydd llawer mwy o wybodaeth yn cael ei rhyddhau am y canolfannau Hoci 360° ym mis Gorffennaf 2012.
- Bydd Suliau Crysau Coch yn parhau i weithredu unwaith y mis – mae'r rhain yn cynnig amgylchedd hyfforddi a datblygu o safon uchel ar gyfer ein hathletwyr grwpiau oedran cenedlaethol.
- Bydd sgwadiau Cymru'n mwynhau lefel uwch o gefnogaeth a rhaglen gydol y flwyddyn i gefnogi'r athletwyr, ar ac oddi ar y cae.
- Mae'r strwythur cystadlu'n cael ei adolygu ar hyn o bryd a bydd strwythur newydd yn cael ei gyflwyno o fis Medi 2013 ymlaen. Yn bennaf, bydd y cystadlaethau ar gyfer ieuenctid ac oedolion sy'n cymryd rhan yn aros yr un fath ar gyfer tymor 2012/13.

Gweler y ddogfen Cwestiynau Cyffredin am ragor o fanylion.

Rhagor o Wybodaeth

Mae Hoci Cymru wedi creu'r adnoddau canlynol er mwyn helpu i egluro a chyfathrebu'r fframwaith Hoci am Oes:

1. Crynodeb Gweithredol – yn y Gymraeg a'r Saesneg. Print mawr ar gael ar gais.
2. Cwestiynau Cyffredin – yn Saesneg. Dogfen Gymraeg a phrint mawr ar gael ar gais.
3. DVD cyflwyniadol Hoci am Oes – yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Y 1^{af} o Fehefin yw dyddiad lansiad y fframwaith Hoci am Oes ond dim ond y dechrau yw hyn. Yn ystod misoedd yr haf a'r hydref byddwn yn rhyddhau rhagor o wybodaeth am bob un o'r haenau, gan gynnwys sut gallwch chi fel unigolyn, eich clwb, eich ysgol neu eich sefydliad gymryd rhan.

Os oes gennych chi unrhyw sylwadau neu gwestiynau, peidiwch ag oedi i gysylltu â ni. Mae rhagor o fanylion ar gael yn y ddogfen Cwestiynau Cyffredin.

Helen Bushell

Prif Swyddog Gweithredol

1 Mehefin 2012